

GRŴP HENEIDDIO’N DDA YN SIR DDINBYCH

CYLCH GORCHWYL

1. NODAU

- Gweithredu Cynllun Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych a hyrwyddo a dylanwadu'n effeithiol ar iechyd, gofal cymdeithasol a lles pobl hŷn (50+)
- Ymgysylltu gyda phobl hŷn er mwyn cynllunio'n strategol a datblygu gwasanaethau yn Sir Ddinbych, gan sicrhau ein bod yn diwallu anghenion pobl hŷn
- Datblygu a hyrwyddo Cymunedau Sy'n Gyfeillgar i Oed drwy weithgareddau pontio'r cenedlaethau yn Sir Ddinbych
- Sicrhau ein bod ni'n rhannu gwybodaeth, arloesedd ac arfer orau gyda budd-ddeiliaid

2. SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU

- Cefnogi a chyfrannu at y blaenoriaethau a geir yn y Cynlluniau Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych a Chymru a, thrwy hynny, at rannau perthnasol Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych a Chynllun Lles Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus
- Datblygu a monitro targedau ar gyfer y Cynllun Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych, wedi'u cefnogi gan ddata ansoddol a meintiol cadarn i ddarparu sylfaen dystiolaeth gref
- Gweithredu fel pwynt cyfunol ar gyfer ymgynghori ynghylch cynllunio, comisiynu a monitro Gwasanaethau Pobl Hŷn
- Datblygu, adolygu ac adrodd ar Heneiddio'n Dda yng nghynllun gwaith Sir Ddinbych
- Sicrhau bod gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a thu hwnt yn clywed ac yn adlewyrchu barn, pryderon a blaenoriaethau pobl hŷn
- Cydweithio gyda grwpiau a fforymau ar gyfer pobl hŷn yn Sir Ddinbych, gan gyfnewid gwybodaeth, arloesedd ac arfer orau ac ystyried barn pobl hŷn a darparu adborth priodol

- Hyrwyddo a chefnogi cymunedau cyfeillgar i oed a dementia yn Sir Ddinbych
- Pob blwyddyn, adolygu'r cylch gorchwyl gan gynnwys gwerthuso ymgysylltiad pob partner
- Gweithio tuag at egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Cynllun Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, Strategaeth Pobl Hŷn, Cynllun Heneiddio'n Dda yng Nghymru ac unrhyw bolisi/strategaeth berthnasol arall
- Sicrhau y rhoddir sylw dyledus i 18 egwyddor y Cenhedloedd Unedig dan y 5 thema ar gyfer pobl hŷn (OPRA), Datganiad Dulyn a Datganiad Glasgow
- Cytuno ar faterion arwyddocaol i'w hadrodd arnynt a'u hargymell i'r Bwrdd Partneriaeth Strategol, y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a sefydliadau aelodau

3. CYSYLLTIADAU A CHYFATHREBU

- Bydd Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn bwydo i mewn i Fwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus ar sail ragnodedig yn dibynnu ar y cynllun gwaith, drwy dîm Cynllunio Strategol CSDd
- Bydd Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn bwydo i mewn ac yn dylanwadu ar Gynlluniau Corfforaethol CSDd ar sail ragnodedig yn dibynnu ar y cynllun gwaith
- Bydd Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn bwydo i mewn ac yn dylanwadu ar gynlluniau cenedlaethol drwy gyfathrebu gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru / Llywodraeth Cymru
- Bydd aelodau Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn gyfrifol am rannu gwybodaeth i ac o'u sefydliadau ar amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn
- Bydd aelodau Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn rhoi sylw dyledus i Bolisi Iaith Gymraeg Sir Ddinbych, gan gydnabod bod yn well gan rai unigolion siarad Cymraeg. Pan fo ar y mwyafrif o bobl eisïau cynnal y cyfarfodydd yn Gymraeg, yna gellir trefnu hynny. Hefyd, gellir darparu gwasanaethau cyfieithu yn ôl y gofyn

4.1. AELODAETH – GRŴP LLAWN

Bydd aelodau Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn gyfrifol am rannu gwybodaeth i ac o'u sefydliadau ar amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn ac am gamau gweithredu/gweithgareddau Grŵp Heneiddio'n Dda Sir Ddinbych

Bydd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

- Cyngor Sir Ddinbych, gan gynnwys

- Cefnogwr Pobl Hŷn
 - Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth
 - Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad
 - Gwasanaethau Cymorth Cymunedol
 - Tai
 - Sir Ddinbych yn Gweithio
 - Celfyddydau Cymunedol
 - Hamdden
 - Llyfrgelloedd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
 - Iechyd Cyhoeddus Cymru
 - Sector annibynnol, i gynrychioli barn darparwyr gwasanaeth annibynnol
 - Sector gwirfoddol a'r trydydd sector, i gynrychioli barn defnyddwyr, defnyddwyr posibl, gofalwyr a darparwyr gwasanaeth gan gynnwys:
 - Age Connects
 - Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych
 - Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru
 - Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
 - Cymdeithas Cludiant Cymunedol
 - Cymdeithas Alzheimer's
 - Gofal a Thrwsio
 - Y Groes Goch
 - Canolfan Merched Gogledd Cymru
 - Cydweithfa'r Crefftwyr
 - Cynrychiolwyr pobl hŷn sydd yn eu tro yn cynrychioli eu fforwm pobl hŷn
 - Cynghorau Cymuned
 - Gwasanaethau Brys
 - Darparwyr Tai (Clwyd Alyn, Tai Clwyd)
 - Aelod Lleol Cynghrair Pobl Hŷn Cymru
 - Cynrychiolydd pontio'r cenedlaethau
 - Cyngor Iechyd Cymuned

Bydd sefydliadau yn enwebu eu cynrychiolwyr a'u dirprwyon, a bydd disgwyl iddynt fynd i'r cyfarfodydd yn rheolaidd. Dylid annog dirprwyon i fynd i o leiaf un cyfarfod o'r grŵp llawn gyda'u prif aelod cyn mynd i gyfarfod ar eu pen eu hunain. Gall y dirprwy wedyn gynrychioli'r aelod ar y Bwrdd Llywio os oes angen.

Bydd yn rhaid i Grŵp Llawn Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych gymeradwyo unrhyw gais gan unigolion sy'n dymuno ymuno â'r grŵp.

4.2 AELODAETH – GRŴP LLYWIO

Yn ogystal, byddwn yn sefydlu Grŵp Llywio llai a fydd yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd, Cefnogwr Pobl Hŷn, Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Cymorth Gweinyddol ac o leiaf un cynrychiolydd arall o Grŵp Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych. Bydd y Grŵp Llywio yn llywio'r Tîm Cynllunio Strategol yn ogystal ag argymhell eitemau i'w cynnwys fel rhan o Gynllun Gwaith i'r Dyfodol Grŵp Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych.

Dim ond aelodau presennol Grŵp Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych y mae modd eu henwebu ar y Grŵp Llywio, ac mae gofyn eu bod wedi mynychu o leiaf un cyfarfod o'r grŵp llawn.

Bydd aelodau'r Grŵp Llywio yn destun adolygiad pob 12 mis, yn ogystal â'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.

5. CADEIRYDD AC IS GADEIRYDD

Bydd aelodau Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd o wahanol sectorau ar sail rota. Os nad yw'r Cadeirydd na'r Is-Gadeirydd yn gallu bod yn bresennol, yna gall y grŵp benodi Cadeirydd Dros Dro.

Bydd Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn adolygu swydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd bob 12 mis.

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau y llunnir rhaglen ddichonadwy, gan roi amser i aelodau drafod a gwyllo'r amser.

6. CYMORTH GWEINYDDOL

Bydd CSDd yn darparu/trefnu rhywfaint o gymorth gweinyddol. Os nad oes modd trefnu hyn, bydd y gwaith gweinyddu/cofnodion yn cael ei wneud ar sail rota.

Bydd y Cadeirydd yn gwirio ac yn cymeradwyo'r cofnodion cyn eu dosbarthu.

Gwneir pob ymdrech i gylchredeg y rhaglen a'r papurau o leiaf 7 diwrnod cyn y cyfarfod a'r cofnodion o fewn 10 diwrnod wedi hynny. Dylai aelodau wneud pob ymdrech i

ddarllen a gwirio'r cofnodion ac ymgymryd ag unrhyw waith y mae gofyn iddynt ei wneud cyn y cyfarfod nesaf.

7. AMLDER Y CYFARFODYDD

Cynhelir cyfarfodydd Grŵp Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych, a chyfarfodydd y Grŵp Llywio, BEDAIR gwaith y flwyddyn . Cytunir ar y dyddiadau yn flynyddol.

Mae'n bosibl y bydd Grwpiau Tasg a Gorffen ychwanegol, yn ôl yr angen ac fel y bo'n briodol.

O ystyried cyfrifoldeb y grŵp hwn, gofynnir i'r aelodau wneud pob ymdrech i fynd i gyfarfodydd. Os nad oes modd i aelod fod yn bresennol, yna dylai drefnu i ddirprwy fynd yn ei le i gynrychioli'r sefydliad. Byddai'n ddefnyddiol, at ddibenion cysondeb ac os oes modd, i aelodau anfon yr un dirprwy i bob cyfarfod y maent yn mynd i fod yn absennol ohono, gan ddarparu briff i'r dirprwy cyn bob cyfarfod.

8. DATGAN CYSYLLTIAD

Er y bydd gan bob aelod gysylltiad â'r eitemau a drafodir yn ystod cyfarfodydd, efallai y bydd adegau pan nad yw'n briodol i aelod fod yn bresennol yn ystod eitem benodol. Mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod i ddatgan a oes ganddynt gysylltiad a all arwain at wrthdaro, boed hynny'n gysylltiad ymddangosiadol neu gysylltiad go iawn.

Os yw'r grŵp yn teimlo bod cysylltiad yn arwain at wrthdaro posibl, byddant yn gofyn i'r aelod beidio â chymryd rhan yn y drafodaeth neu adael yr ystafell.

9. CYFRINACHEDD

Mae'n rhaid i bawb sy'n bresennol mewn cyfarfod barchu cyfrinachedd, a chadw at ofynion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a ddaeth i rym ym mis Mai 2018.

Bydd disgwyl i aelodau sicrhau eu bod yn rhannu gwybodaeth yn briodol a chyda disgresiwn.